Ysgol Glan y Môr

Bwletin i Rieni: Pasg 2014

DYDDIADAU PWYSIG

Ebrill

7-11 Wythnos Profiad Gwaith Bl 10
11 Ysgol yn cau am y Gwyliau
14-25 Gwyliau'r Pasg
28 Ysgol yn ail gychwyn
28 Adroddiadau Bl 10

Mai

5 Gwyliau Gwyl Banc Mai
6 Noson Rieni Bl 10 **3.45 - 5.45**
12 Arholiadau TGAU yn cychwyn
20 Mabolgampau Ysgol (tywydd yn caniatau)
20 Arholiadau Bl 9
23 Ysgol yn cau am y Gwyliau Sulgwyn 26/5 - 30/5/14

Mehefin

2 Ysgol yn ail gychwyn
18 Arholiadau Bl 7 & 8.
23 Asesiad Gwobrwyo/Ymdrech
24 Seremoni Ffeil Cynnydd i Fl 11
30 HMS - Dim ysgol i'r disgyblion

GWISG YSGOL Rydym yn ddiolchgar am eich cefnogaeth i sicrhau fod pawb yn cadw at ein rheolau gwisg ysgol a hoffwn atgoffa bawb mai **trowsus PLAEN du nid jeans/leggins** ac **esgidiau/trainers plaen DU** yn unig sy'n dderbyniol. Ar ôl y gwyliau Pasg mi fydd hi'n bosib i'r genethod wisgo sgert wyrdd swyddogol yr ysgol (ar gael yn swyddfa'r ysgol yn unig) Mae caniatad i'r genethod wisgo esgidiau fflat du a theits du trwchus neu liw croen **yn unig** gyda'r sgert.

Mae'n bwysig i'ch plentyn wisgo'r wisg lawn gywir bob dydd - sef crys polo gwyn a crys-chwys gwyrdd. Mae eitemau o'r wisg ysgol ar werth yn yr ysgol.

5X60 Ewch gyda'r lli Get with it

Mia Crocket, Karrie Jones, Thea Murray Williams, Gwenno Owen, Lucy Collier ac Alaw Jones Bl 7

5X60

Bu criw Dawns 5X60 Ysgol Glan y Môr ennill y wobr gyntaf yn gystadleuaeth Dawns 5X60 Gwynedd cynhaliwyd ym Mhorthmadog mis Chwefror. Fe wnaeth Karrie Jones, Mia Crocket, Thea Murray Williams, Gwenno Owen, Lucy Collier ac Alaw Jones Bl 7 ddawnsio i gan Lady Gaga. Bu wedyn iddynt gymryd rhan mewn Arddangosfa Dawns yn y Galeri, yng Nghaernarfon ar Fawrth 31.
Da iawn chi genod

Mi fydd y râs "Race for Life" yn digwydd eto eleni ar y 1af o Fehefin yng Nghaernarfon. Os gennych ddiddordeb cysylltwch â Sioned Owen eich gweithiwr 5X60 neu swyddfa'r ysgol am fwy o fanylion.

Urdd

Llongyfarchiadau mawr iawn i'r holl ddisgyblion a gymerodd ran yn Eisteddfod yr Urdd eleni.
Llwyddodd y disgyblion canlynol i fynd ymlaen i'r rhanbarth a dyma'r canlyniadau:

Siwan Llwyd Williams 2il - unawd merched 7 - 9
Gronw Ifan Griffith 2il - Unawd Bechgyn 7 - 9
Catrin a Gwenno – 3ydd – Deuawd 7 – 9
Siwan llwyd Williams – 1af – Alaw Werin 7,8 a 9
Angharad Williams – 2il – Unawd telyn
Catrin a Gwenno – 2il – Deuawd Cerdd Dant
Parti LLIO – 2il – Cyflwyniad Dramatig

Pob Lwc i Siwan Llwyd Williams yn yr Eisteddfod ym Mis Mai ac i Hedd Edwards gyda'i waith Celf a Chrefft.

Yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Bu'n gyfnod prysur i ddisgyblion Blwyddyn 10. Aethant ar daith addysgol i Antur Waunfawr ger Caernarfon i ddysgu mwy am gyfleoedd gwaith o fewn y Sector Gofal. Roeddent wedi meddwl am yrfa yn gweithio gyda phlant a'r henoed ond heb feddwl gymaint am weithio gydag oedolion ag anableddau. Mae Antur Waunfawr eleni yn dathlu 30 mlynedd ers ei sefydlu. Clywodd y disgyblion bod gweithlu o 160 yn y sefydliad erbyn hyn a'u bod yn cefnogi gweithwyr mewn sawl canolfan wahanol. Ymwelodd y disgyblion â'r pencadlys yn Waunfawr a dotio at y crefftau sy'n cael eu creu yno a'r cyfleoedd i weithio mewn caffi ac yn y gerddi helaeth sydd ar y safle. Aethant wedyn i safle'r Warws Werdd yn Stad Cibyn a chael gweld beth sy'n digwydd i'r holl ddillad a dodrefn sy'n cael eu rhoi i'r Antur. Roedd y siop ddillad yn edrych yn ardderchog gyda phob math o ddillad i blant ac oedolion. Yn anffodus oherwydd y gwynt mawr chawson nhw ddim cyfle i ymweld â Chaergylchu ei hun ond cawsant gyflwyniad difyr gan y Staff yn esbonio sut mae Staff yr Antur yn cefnogi'r gweithwyr yno hefyd. Yn sicr roedd yn agoriad llygad iddynt weld pa gyfleoedd gwaith sydd ar gael a chael siarad â Staff yr Antur ynglŷn â disgwyliadau cyflogwyr. Mae'r ysgol yn ddiolchgar iawn am y croeso a'r arweiniad gwerthfawr gafodd y disgyblion gydol y dydd.

Wedi'r ymweliad bu'n rhaid i'r disgyblion ymgeisio am swydd ddychmygol yn yr Antur. Rydym yn ddiolchgar iawn i Mrs Gail Davies am ddod i'r ysgol am ddiwrnod i gynnal y cyfweliadau. Roedd yn brofiad ardderchog i'r disgyblion gan y bu'n rhaid iddynt lenwi ffurflenni cais cyn y cyfweliad a dysgu sut i baratoi ar gyfer cwestiynau cyfweliad. Roedd pawb yn falch iawn iddyn nhw gael y profiad hwn ac er ei fod yn frawychus roeddent yn sylweddoli y byddai'r profiad o fantais iddynt yn y dyfodol wrth geisio am swydd. Y cam nesaf i ddisgyblion blwyddyn 10 ydy wythnos o Brofiad Gwaith a dymunwn bob llwyddiant iddynt.

E-Ddysgu

Mae'r ysgol bellach wedi buddsoddi mewn nifer helaeth o iPads er mwyn hybu defnydd y disgyblion o sawl math gwahanol o declynnau cyfrifiadurol. Rydym yn falch iawn bod Mrs Jacqui Parry sy'n anogwr dysgu yn yr ysgol wedi ennill ail wobr yng Nghystadleuaeth Cyn-hadledd Ddigidol Grwp E-Ddysgu Gogledd Cymru yn y categori 'Prosiect Digidol sy'n Cysylltu â'r Gymuned Leol'. Bu Mrs Parry yn gweithio gyda disgyblion blwyddyn 10 ar brosiect o'r enw ApPwllheli. Bydd yr ap, sy'n llawn gwybodaeth i ymwelwyr â thref Pwllheli ar gael yn yr AppStore. Bydd y lawnsiad swyddogol nos Fercher, Mai 21ain am 7.30 yn yr ysgol. Yn yr un seremoni derbyniodd yr ysgol glod am y defnydd a wneir o "Moodle" i osod gwaith i ddisgyblion tu allan i furiau'r ysgol! Cofiwch bod deunyddiau'n cael eu hychwanegu'n rheolaidd, yn enwedig ar gyfer disgyblion Bl 10 ac 11 cyn arholiadau.

Wefannau Defnyddiol Adolygu dros Wyliau'r Pasg

Quizlet.com - yn eich helpu i greu cardiau adolygu, yn ddefnyddiol iawn wrth ddysgu termau a geirfa.

BBC Bitesize - nodiadau adolygu defnyddiol a gweithgareddau mewn nifer o bynciau.

HWB - llawer o adnoddau dwyieithog yn yr holl bynciau.

'DIWRNOD Y LLYFR' — Mawrth 6ed

I ddathlu 'Diwrnod Y Llyfr Byd Eang' eleni, bum yn hynod ffodus o chael cwmni yr awdures Margiad Roberts atom am y prynhawn. Bu yn cynnal gweithdy ar sut i greu odl mewn cerddi gyda chriw o ddisgyblion Bl.7 ac 8 . Cafodd y disgyblion lawer o hwyl yn creu cerddi doniol a difyr iawn!

Diolch yn fawr iawn i Margiad Roberts am ei hamser, ac am gynnal prynhawn mor ddiddorol.

Cystadleuaeth gwyddbwyll a drafftiau

Daeth criw o chwaraewyr brwd o ysgol Botwnnog, draw i lyfrgell ysgol Glan Y Môr yng nghwmni Mrs. Brunelli, athrawes Drama, i gymeryd rhan yn ornest gemau gwyddbwyll a drafftiau. Cafwyd cystadleuaeth difyr iawn o gemau cyffrous rhwng y disgyblion. Bu llwyddiant i ddisgyblion ysgol Glan Y Môr, Llongyfarchiadau mawr iddynt!

Adran Technoleg

Cystadleuaeth Coginio Clwb Rotari

Yn ystod hanner tymor mis Chwefror bu Elis Williams o flwyddyn 9 yn cymryd rhan mewn cystadleuaeth coginio a drefnwyd gan y clwb Rotari. Hon oedd yr ail rownd yn y gystadleuaeth. Yn anffodus ni fu'n llwyddiannus y tro hwn, ond roedd safon y cystadlu'n uchel iawn. Bydd cyfle eto i ti gystadlu'r flwyddyn nesaf. Dal ati Elis.

Gweithdai Technocamps

Fe fynychodd disgyblion Bl 7 a 9 gweithdai wedi ei drefnu gan "Technocamps" o Brifysgol Gogledd Cymru ym Mangor. Cafodd Bl 7 gweithdy diwrnod yn ddylunio gem gyfrifiadurol gan ddefnyddio'r rhaglen gyfrifiadurol "Scratch". Mi gafodd Bl 9 dau ddiwrnod i ddylunio a rhaglenni gem gyfrifiadurol yn addas i ffonau symudol gan ddefnyddio'r rhaglen "Scratch" ar y ddyfais "Raspberry Pi". Mi roedd pawb wedi mwynhau y gweithdai.



Bl 9 yn mwynhau y gweithday Technocamps

Adran Mathemateg **Prifysgol Bangor – Ysgol Gwyddorau Cyfrifiadurol, Dosbarthiadau Meistr Mathemateg Gogledd Orllewin Cymru**

Mynychodd Cerys Williams, Megan Jenkins a Erin Povey o flwyddyn 9 "Ddosbarthiadau Meistroli Mathemateg a gynhaliwyd ym mhrifysgol Bangor yn ystod Ionawr, Chwefror a Mawrth. Yn y sesiynau bu'r disgyblion yn gwneud gwaith mathemateg diddorol oedd ar lefel uchel iawn. e.e. defnyddio matricsau

Chwaraeon Ysgol Glan y Môr

Mae timau pêl droed yr ysgol wedi cael tymor llwyddiannus iawn. Fe lwyddodd tri thîm pêl droed gyrraedd rowndiau terfynol Gwynedd, yn anffodus fe gollwyd timau blwyddyn 7 a blwyddyn 8 i Ysgol Tryfan (6-4) a Brynrefail (6-3). Er hyn fe enillodd tîm blwyddyn deg cwpan Gwynedd drwy guro Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon 5-1. Fe sgoriodd seren y gêm Dylan Roberts tair gôl a chapten y tîm oedd Gwern Griffith.

Mae timau rygbi'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus hefyd, fe gyrhaeddodd tîm blwyddyn 9 chwarteri cwpan Cymru, cafwyd gem i ffwrdd yn erbyn Ysgol Gyfun Pontfaen. Colli 42-10 oedd yr hanes gyda ceisiau gan Bailey Rae ac Owain ap Myrddin. Er hyn roedd yn brofiad ardderchog a gafwyd cyfle i ymarfer ar Barc yr Arfau, Caerdydd y bore cyn y gêm. Mae tîm dan 13 yr ysgol wedi cyrraedd rownd cyn derfynol cwpan Eryri, hefo gem yn erbyn Ysgol Eifionydd, tra mae'r tîm dan 15 wedi cyrraedd y chwarteri olaf ym mhlât Eryri hefo gem yn erbyn Ysgol Gyfun Llangefni.

Ysgol Glan y Môr

Parents' Bulletin - Easter 2014

IMPORTANT DATES

April

7-11	Work Experience
11	School closes for holidays
14-25	Easter Holidays
28	School re-opens
28	Year 10 Reports

May

5	May Bank Holiday
6	Year 10 Parents' Evening **3.45 - 5.45**
12	GCSE examinations begin
20	School Sports Day (weather permitting)
20	Year 9 Examinations
23	School closes for Whitsun Holidays (26/5 - 30/5/14)

June

2	School re-opens
18	Year 7 & 8 examinations
23	Achievement Assessment Yrs 7, 8 & 9
24	Year 11 Presentation Ceremony
30	Inset Day - no school for pupils

School Uniform -

We are grateful for all your support in ensuring that all pupils wear the appropriate school uniform, we would also like to remind you that only **plain black trousers (not jeans/ leggings)** and **black shoes/plain black trainers** are acceptable. However after the Easter holidays the girls are allowed to wear a green skirt (available only through the school.) The girls will be allowed to wear flat , black shoes with thick black tights or thinner skin coloured tights with their skirt.
It is important that your child wears their full uniform at all times i.e. white polo, green sweatshirt.
Items of the school uniform are for sale at the school.

5X60 Ewch gyda'r lli Get with it

Mia Crocket, Karrie Jones, Thea Murray Williams, Gwenno Owen, Lucy Collier and Alaw Jones Yr 7

5X60

There were plenty of 5X60 activities again this term.

Ysgol Glan y Môr's 5X60 Dance Troup won first prize in Gwynedd's 5X60 Dance Competitions held in Porthmadog in February. Karrie Jones, Mia Crocket, Thea Murray Williams, Gwenno Owen, Lucy Collier and Alaw Jones Yr 7 chose a Lady Gaga song to dance to. They then took part in a Dance Exhibition at Y Galeri in Caernarfon on March 31st. Well done girls.

The "Race for Life" will again take place this year in Caernarfon on the 1sr of June. If there is anyone interested please contact Sioned Owen 5X60 or the school office for more details.

Urdd

Congratulations to all the pupils who took part in the Urdd Eisteddfod on April 5th.
Siwan Llwyd Williams 2nd- girls solo 7 - 9
Gronw Ifan Griffith 2nd- boys' solo 7 - 9
Catrin a Gwenno – 3rd– duet 7 – 9
Siwan llwyd Williams – 1st – folk song 7,8 a 9
Angharad Williams – 2nd – harp solo
Catrin a Gwenno – 2nd – Cerdd Dant duet
Parti Llio – 2nd – Drama

Siwan Llwyd Williams will now got on to compete in the National Eisteddfod in Bala. Hedd Edwards' art work will also be exhibited at the National Eisteddfod.

Health and Social Care Department

It has been a busy time for Year 10 pupils . They went on an educational trip to Antur Waunfawr, a Social Enterprise company to learn more about job opportunities within the Care Sector. They had previously thought about careers working with children and the elderly but hadn't thought so much about working with adults with disabilities . Antur Waunfawr this year celebrates 30 years since its inception . The pupils heard that they have a workforce of 160 in the organisation and are supporting workers in several different centres . The pupils visited the headquarters in Waunfawr and loved seeing the crafts that are created there and the opportunities to work in the extensive gardens and cafe on site . They went on then to the site of Warws Werdd in Cibyn Estate and saw what happens to all the clothes and furniture which are given to the Antur. The clothing store looks great with all kinds of clothes for children and adults. Unfortunately because of the high winds on the day they did not have the chance to visit Caergylchu itself but they were given an entertaining presentation by the Staff explaining how the Antur Staff support workers there too. It certainly was an eye opener to see what job opportunities are available and get to talk to the staff about Antur's expectations of employees . The school is very grateful for the welcome and the invaluable guidance of pupils had all day .

After the visit the pupils had applied for a fictional job in the Antur . We are very grateful to Mrs Gail Davies for coming to school for a day to conduct the interviews . It was a great experience for the pupils who had to fill in application forms before the interview and learn how to prepare for interview questions . Everyone was delighted to have this experience and although it can be quite a scary process they realised that the experience will be of benefit to them in the future when applying for a job . The next step for year 10 is a week's work experience and we wish them every success .

E -Learning

The school has invested in a large number of iPads to boost pupils' use of several different types of computing devices . We are delighted that Mrs Jacqui Parry, a learning coach at the school, has won second prize in the E-Learning Technologies Conference under the category 'Digital Projects engaging with the local community'. Mrs Parry worked with year 10 pupils on a project called ApPwllheli . The app , which is full of information for visitors to Pwllheli will be available in the AppStore . The official launch is Wednesday Evening the 21st of May at the school. In the same conference the school received a commendation for their use of Moodle to help students study outside the school walls. Please remember to keep looking at the site as it is being continuously updated especially Year 10 and 11 pupils before the exams.

Useful Revision Websites over the Easter Holidays

Quizlet.com – will help you create revision cards, especially handy to learn terms and vocabulary.

BBC Bitesize – useful revision notes and activities in many subjects.

HWB – many bilingual resources in all subjects.

'WORLD BOOK DAY' — 6th of March

To celebrate 'World Book Day' this year, we were extremely fortunate to have had the company of the author Margiad Roberts for the afternoon. She held a workshop with pupils from years 7 and 8 creating rhyme in poetry. The pupils had a lot of fun creating humorous and amusing poetry!

A big thankyou to Margiad Roberts for her time, and for providing an interesting afternoon.

WORLD BOOK DAY—6th OF MARCH.

Congratulations to the following on winning the 'Book Day' competition, namely 'The Best Joke';

1st — Deio Owen Yr.7R

Joint 2nd — Hedd Edwards Yr.7A / Courtney Mollitierno Yr.7E

Joint 3rd — Lois Evans Yr.7A / Iwan Emlyn Yr.9R

The winners received a book and Easter egg.

Technology Department

Rotary Club Competition
During the half term holidays in February Elis Williams from Year 9 took part in a cooking competition organised by the Rotary Club. This was the second round in the competition. Unfortunately Elis was not as successful this time, the standard of entries was very high. Keep trying Elis! You'll be older and wiser for the event next year!

Technocamps Workshops
Year 7 and 9 pupils took part in workshops organised by Technocamps from the North Wales University in Bangor. Year 7's workshop involved a day of designing a computer game using the computer programme 'Scratch' and Year 9 had two days designing and programming a computer game suitable for mobile phones using 'Scratch' on a 'Raspberry Pi' device. Everyone thoroughly enjoyed the workshops.

Year 9 pupils enjoying the Technocamp Workshop

Mathematics Department
Bangor University School of Computer Science, North West Wales Mathematic Master classes

Cerys Williams, Megan Jenkins and Erin Povey from Year 9 attended "Mastering Maths" Classes held at Bangor University during January, February and March.

In the sessions the pupils took part in interesting mathematics work which was on a very high level. eg the use of matrices

Sports Department

The school football team has had a very successful term. 3 of our teams reached the Gwynedd finals, unfortunately Year 7 and Year 8 teams lost to Tryfan (6-4) and Brynrefail (6-3). Year 10, though, won the Gwynedd Cup beating Ysgol Syr Hugh Owen, Caernarfon 5-1. The star of the team Dylan Roberts scored 3 goals and the captain of the team was Gwern Griffith.
The school rugby team was also successful, the Year 9 team reached the quarter finals of the Welsh Cup, an away game to Ysgol Gyfun Pontfaen, Cowbridge. Unfortunately we lost 42-10 with tries from Bailey Rae and Owain ap Myrddin. Nevertheless it was a great experience and they had the opportunity to practice at the Arms Park, Cardiff the morning before the game. The under 13's team has reached the semi-finals of The Eryri cup, playing against Eifionnydd School, while the under 15's team reached the quarter finals in the Eryri Plate with a match against Ysgol Gyfun Llangefni.